# AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-2028

## Dogfen Ymgynghori a Holiadur

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.*

*Os oes angen y ddogfen hon a'r holiadur arnoch mewn unrhyw fformat neu iaith arall, neu os hoffech ragor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.*

**TROSOLWG:** Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Mae'r themâu a'r amcanion o gynllun 2020-2024 yn bwysig o hyd, ac rydym yn gofyn a oes angen cynnwys unrhyw beth arall.

Pwrpas yr Amcanion Cydraddoldeb yw sicrhau ein bod yn cryfhau ein sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a bygwth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

**SUT I YMATEB:** Crynhoir y cwestiynau yn Atodiad 1. Mae'r holiadur ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol;

Holiadur Ar-lein Cynllun Cyfartaledd Strategol 2024-2028

Mae copïau papur o'r holiadur a'r ddogfen ymgynghori hon ar gael yn y Ganolfan Ddinesig neu gallwch wneud cais i argraffu a chasglu copi.

Defnyddiwch yr holiadur hwn neu'r ffurflen ar-lein i roi eich adborth.

Os oes arnoch angen cymorth i gwblhau'r holiadur, defnyddiwch y manylion cyswllt isod.

Mae'r dogfennau ymgynghori a'r holiadur hefyd ar gael o'n gwefan gorfforaethol, sef: Ein Cynllun Cyfartaledd Strategol 2024-2028

Gellir e-bostio neu bostio ymatebion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

**MANYLION CYSWLLT:** Adran Cydraddoldeb

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Canolfan Ddinesig

Stryd y Castell

Merthyr Tudful

CF47 8AN

E-bost: equalities@merthyr.gov.uk

Rhif ffôn: 01685 725000 a gofynnwch am yr adain Cydraddoldeb.

## EIN GWELEDIGAETH CYDRADDOLDEB

*"Man, ble mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu a lle gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni eu potensial heb wahaniaethu a rhagfarn."*

Bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaeth, comisiynydd a chyflogwr, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau, mynd i'r afael â gwahaniaethu, a gwella lles preswylwyr y Fwrdeistref Sirol.

## EIN HAMCANION LLESIANT CORFFORAETHOL 2023-2028

Cymeradwywyd yr amcanion Llesiant Corfforaethol newydd ym mis Ebrill 2023. Dangosir y rhain yn y tabl isod, ac maent wedi'u cynnwys yn Natganiad Llesiant 2023-2028.

| |
|---|
| **'Merthyr Tudful Uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ddysgu'**<br>Byddwn yn atgyfnerthu sut rydym ni'n galluogi pobl i dyfu a chyrraedd eu potensial. |
| **'Merthyr Tudful Iachach'**<br>Byddwn yn grymuso pobl i fyw bywydau annibynnol ac urddasol. |
| **'Merthyr Tudful Diogel a Ffyniannus'**<br>Byddwn yn cefnogi'r modd mae ein heconomi yn gwella ac yn tyfu; gan sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol. |
| **'Merthyr Tudful Glân a Gwyrdd'**<br>Byddwn yn cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd glân a gwyrdd yn awr ac yn y dyfodol. |

*Ffigur 1.1. Tabl yn dangos amcanion Llesiant CBSMT 2023-2028*

## DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 A DYLETSWYDD CYDRADDOLDEB SECTOR CYHOEDDUS

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) ar gyfer Awdurdodau Lleol. Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a bygwth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus/awdurdodau lleol a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth ddylunio polisïau, darparu gwasanaethau, a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Disodlodd y Ddeddf y dyletswyddau ar wahân ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhyw ac mae'n ymestyn ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Y naw nodwedd warchodedig yw:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau a gyflwynodd y Dyletswyddau Penodol i Gymru ym mis Mawrth 2011, a oedd yn nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cymryd er mwyn cydymffurfio. Rhaid i gyrff cyhoeddus bennu amcanion cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd. Wrth ddatblygu'r amcanion hyn, rhaid i'r Cyngor gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau. Mae yna hefyd ddyletswyddau eraill y mae'n rhaid i'r Cyngor eu sicrhau i fodloni'r Ddeddf.

## DYLETSWYDD ECONOMAIDD- GYMDEITHASOL

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor i ystyried yn weithredol (rhoi sylw dyledus) sut y gallwn leihau anghydraddoldebau canlyniadau a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Daeth y ddyletswydd newydd i rym ar 31 Mawrth 2021.

Mae'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o gael canlyniadau gwaeth ym meysydd gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder, a chyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus.

Mae’r ddyletswydd yn rhoi cyfle i ni wneud pethau’n wahanol a sicrhau bod mynd i’r afael ag anghydraddoldeb wir yn cael ei roi wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau allweddol. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r ddyletswydd yn fecanwaith allweddol i gefnogi'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

## AM BETH YW'R YMGYNGHORIAD HWN?

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau ein bod yn ymgysylltu â’n cymunedau ynghylch pennu ein Hamcanion Cydraddoldeb newydd, a rhoi’r cyfle i bobl gymryd rhan a gweithio gyda ni yn y datblygiad, tra hefyd yn cyflawni ein dyletswyddau statudol.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb i sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd o ran hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer yr holl grwpiau nodweddion gwarchodedig. Mae'r amcanion a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ymagwedd y Cyngor at gydraddoldeb ac

amrywiaeth ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a chydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg gweithlu'r Cyngor.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar y canlyniadau sydd o bwys i'r gymuned a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor; a bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn cael eu darparu'n effeithiol. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys ystod o gamau gweithredu a fydd yn cyfrannu at yr amcanion Cydraddoldeb.

Cyhoeddwyd yr Amcanion Cydraddoldeb presennol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ym mis Mawrth 2020.

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ***'A yw Cymru'n Decach?' 2018*** . Mae hwn yn archwilio'r dystiolaeth o sut mae Cymru'n perfformio o ran cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn amlygu'r heriau a'r datrysiadau i wneud Cymru'n decach. Mae'n nodi argymhellion i bartneriaid allweddol eu gweithredu.

Edrychodd y Comisiwn ar chwe thema bywyd:

- Addysg,
- Iechyd,
- Safonau Byw,
- Cyfiawnder a Diogelwch,
- Gwaith,
- Cyfranogiad.

Bwriedir i ddogfen 'A yw Cymru'n Decach?' 2023 gael ei chyhoeddi ym mis Hydref/Tachwedd 2023. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn canolbwyntio ar yr amcanion a'r nodau hirdymor. Nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys unrhyw gamau a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion.

**<u>DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015</u>**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd i wneud y mwyaf o'r cyfraniad at y saith nod llesiant. Mae angen i ni ymgorffori'r nodau yn ein holl waith a sicrhau ein bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor yn cyfrannu at gyflawni'r saith Nod Llesiant yn arbennig *'Cymru fwy cyfartal'* a *'Chymru o gymunedau cydlynus'.* Dangosir y saith nod llesiant isod;



Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gymhwyso'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, y pum ffordd o weithio yn ein holl waith. Y pum ffordd o weithio yw:

- Edrych tuag at yr **hirdymor** fel nad ydym yn cael effaith negyddol ar genedlaethau'r dyfodol a chael cydbwysedd o ran yr anghenion tymor byr gyda'r anghenion i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion tymor hwy hefyd.
- **Atal** problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol ac archwilio sut y gallwn ddeall y broblem i ddod o hyd i ddatrysiadau.
- **Cydweithio** ag eraill i rannu a dod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy a allai helpu i gyflawni’r amcanion llesiant.
- **Integreiddio** dulliau gweithredu â strategaethau mewnol, nodau llesiant, amcanion y Cyngor, ac amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cynnwys** pobl mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt a chyda diddordeb yn y nodau llesiant, gan sicrhau bod y bobl yn cynrychioli amrywiaeth yr ardal.



Hirdymor Atal Cydweithio Integreiddio Cynnwys Pobl

Defnyddir yr egwyddorion hyn i arwain datblygiad ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob amcan.

Byddwn yn datblygu camau gweithredu Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac Amserol (SMART) a fydd yn helpu i gyflawni'r amcanion hyn. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn adolygu ein cynllun yn rheolaidd i nodi cynnydd.

## CYNLLUNIAU ALLWEDDOL LLYWODRAETH CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid a chymunedau allweddol, wedi datblygu Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod â’i hymrwymiadau presennol ynghyd ac wedi nodi sut y mae’n bwriadu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau, rhagolygon, a chanlyniadau ar gyfer pobl LHDTC+, a phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, heddiw ac yn y dyfodol.

### Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar gyfer Cymru

Bydd y cynllun yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ ac yn nodi'r camau pendant y byddant yn eu cymryd i herio gwahaniaethu a chryfhau cydraddoldeb i bobl LHDTC+.

Mae’r Cynllun Gweithredu LHDTC+ hwn ar gyfer Cymru wedi’i sefydlu i helpu i gydlynu camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Mae’r cynllun yn nodi gweledigaeth gyffredinol i wella

bywydau pobl LHDTC+ a'r canlyniadau iddynt. Mae'n cynnwys ystod eang o gamau gweithredu polisi-benodol sy'n ymwneud â hawliau dynol, addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon, diwylliant, a hybu chydlyniant cymunedol. Yn benodol, drwy'r Cynllun Gweithredu hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i amddiffyn a hyrwyddo hawliau ac urddas pobl drawsrywiol ac anneuaidd, ac i wneud i'r cymunedau hynny deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu cynnwys yng nghymdeithas Cymru, ac i greu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu yn ddilys, yn agored ac yn rhydd fel eu hunain.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae gwahaniaethau cymdeithasol a strwythurol yn tanlinellu hyn, gan arwain at wahaniaethau iechyd ac amrywiaeth o anghydraddoldebau eraill.

Y weledigaeth yw gwneud Cymru yn genedl wrth-hiliol. Pwrpas y cynllun yw 'gwneud newid sylweddol ar y cyd i fywydau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig'. Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu, canolbwyntiwyd ar 6 ffordd y mae hiliaeth yn effeithio ar fywydau pobl o leiafrifoedd ethnig, er enghraifft, profiad o hiliaeth mewn bywyd bob dydd, wrth gael profiad o ddarpariaeth gwasanaeth, bod yn rhan o'r gweithlu, cael swyddi a chyfleoedd, gweld esiamplau gweladwy mewn swyddi grymus, a phrofiadau fel ffoadur neu geisiwr lloches.

**EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB PRESENNOL**

| AMCANION CYDRADDOLDEB 2020-2024 |
|---|
| **THEMA: YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD CYNHWYSOL** |
| **Amcan: Ymgysylltu â'n Dinasyddion i gymryd rhan a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed er mwyn deall ac ymateb i anghenion ein cymunedau.**<br><br>Mae ymgysylltu, cynhwysiant a chyfranogiad cymunedol yn hanfodol i'r Cyngor er mwyn cyflawni newid cadarnhaol i'r gymuned. Heb ein bod yn dod i wybod mwy am y bobl sy'n rhan o'r cymunedau ym Merthyr Tudful, ni allwn nodi materion neu rwystrau penodol a allai eu hatal rhag cyrchu ein gwasanaethau neu ymgysylltu â'r Cyngor pan fo angen. Mae dealltwriaeth glir o bwy sy'n byw yn yr ardal leol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae cynnwys trigolion mewn gwneud penderfyniadau yn creu cymunedau cryf. Mae rhai grwpiau gwarchodedig yn wynebu rhwystrau sylweddol o ddydd i ddydd a all effeithio ar eu cyfranogiad ym mywyd y gymuned ac wrth gael mynediad at wasanaethau. Drwy ddeall y rhwystrau hyn, rydym yn gallu darparu gwasanaethau gwell i'n trigolion. Mae ymgysylltu nid yn unig yn ffordd allweddol o wella gwasanaethau, ond hefyd yn gyfrifoldeb statudol mewn perthynas â Chydraddoldeb, fel y nodir yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). |
| **THEMA: CYDLYNIANT CYMUNEDOL** |
| **Amcan: Hyrwyddo a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynus.**<br><br>Er bod gan Ferthyr Tudful dreftadaeth falch ac amrywiol, rydym yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â'r diffyg adrodd am droseddau casineb o hyd. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o beth yw trosedd casineb a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod sut a ble i roi gwybod am |

| |
|---|
| droseddau casineb. Mae cydlyniant cymunedol yn hanfodol ym mhob cymuned er mwyn galluogi gwahanol grwpiau o bobl i gyd-dynnu a galluogi ymdeimlad o berthyn. Mae hyn yn galluogi pobl i deimlo'n fwy diogel a sicr yn eu cymunedau. Mae cymuned lle mae gan bobl fwy o gysylltiad ac yn gallu meithrin perthynas well ag eraill a mwy o ddealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau yn llai tebygol o feithrin safbwyntiau eithafol. |
| **THEMA: GWEITHLU CYNHWYSOL AC AMRYWIOL** |
| **Amcan: Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful.**<br><br>Yn genedlaethol, mae angen sicrhau dealltwriaeth o ofynion i gasglu a defnyddio gwybodaeth ynghylch cyflogaeth ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Hefyd, yn genedlaethol, mae angen i systemau TG neu ddatrysiadau amgen gefnogi'r gwaith o gasglu, cofnodi a defnyddio gwybodaeth cyflogaeth ofynnol. Mae angen i ni wneud mwy i godi ymwybyddiaeth ynghylch pa gymorth sydd ar gael i'r rheini â nodweddion gwarchodedig, nid yn unig wrth recriwtio ond hefyd drwy gydol y daith yn y gweithle. Er mwyn cael y gorau o'n gweithwyr a sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau gorau i'n preswylwyr mae angen diwylliant gweithle sy'n ddiogel a chynhwysol arnom. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni wybod mwy am amrywiaeth ein gweithlu a pharhau i sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynhwysol. |
| **THEMA: RHYW / CYFLOG CYFARTAL** |
| **Amcan: Sicrhau cyflog cyfartal ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.**<br><br>Mae'n ofynnol i ni fel Cyngor ystyried unrhyw wahaniaethau cyflog sy'n bodoli ar draws y sefydliad a nodi amcan a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaeth a nodwyd. Yn genedlaethol, er bod systemau cyflog yn bwysig wrth bennu tegwch cyflog, mae nifer o faterion eraill sy'n berthnasol wrth benderfynu faint yw'r tâl ar gyfer menywod a dynion. Mae'r rhain yn cynnwys arwahanu galwedigaethol; argaeledd gwaith llawn/rhan-amser mewn gwahanol grwpiau galwedigaethol, e.e swyddi â chyflog is yn bennaf yn rhan-amser tra bod rolau uwch â chyflogau uwch yn rhai llawn amser yn bennaf; argaeledd polisïau a chefnogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd a diwylliant sefydliadol. |
| **THEMA: GWASANAETHAU HYGYRCH** |
| **Amcan: Deall a chael gwared ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.**<br><br>Gall y rhwystrau a brofir gan grwpiau ac unigolion gynnwys mynediad corfforol i adeiladau, mynediad at wybodaeth mewn fformatau priodol i weddu i'w hanghenion, cludiant, diweithdra, anawsterau iechyd meddwl, mynediad at dechnoleg ac ati. Rydym am ddarganfod mwy ynghylch sut mae pobl yn cael mynediad at y gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu cynnig a sut rydym yn cynnig ein gwasanaethau yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth a gwella ein dealltwriaeth o'r materion y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ein gwasanaethau i ddileu rhwystrau. Bydd ymgysylltu a monitro gwybodaeth yn effeithiol yn ein helpu i roi gwybod i ni am hygyrchedd gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Rydym eisiau grymuso grwpiau â nodweddion gwarchodedig i allu cael mynediad at y gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor. Mae mwy o wasanaethau'n cael eu cyrchu'n ddigidol sy'n galluogi pobl i ymgysylltu mwy ac sy'n ein galluogi |

i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Mae angen i ni ystyried mecanweithiau ar gyfer cyrraedd pob aelod o'r gymuned. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod arwyddion clir, golau, fformatau darllenadwy ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth gan sicrhau bod mynediad corfforol a mynediad digidol yn briodol.

## BETH RYDYM YN GOFYN I CHI EI YSTYRIED?

Rydym yn gofyn i chi ystyried y canlynol wrth ateb y cwestiynau:

- **Pa heriau y mae pobl yn eu hwynebu ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?**
- **A yw'r themâu a'r amcanion yn mynd i'r afael â'r heriau hyn yn ddigonol?**
- **A ddylai'r themâu a'r amcanion hyn barhau yng nghynllun 2024-2028?**
- **A oes unrhyw beth ar goll y mae angen i ni ei ystyried?**
- **Beth arall allwn ni ei wneud i wella?**
- **Sut allwn ni ddarparu ein gwasanaethau'n well i fodloni anghenion ein cymunedau?**
- **Beth ydych chi'n meddwl sydd angen ei gynnwys yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028?**

Sylwer: Nid yw'r pwyntiau hyn yn holl gynhwysfawr, gan ein bod am gasglu eich holl safbwyntiau.

## CYSYLLTU AMCANION Â CHAMAU GWEITHREDU

Ar gyfer pob un o'r amcanion, bydd nifer o gamau gweithredu allweddol yn cael eu datblygu a'n nod yw nodi sut mae pob un yn dangos sut y bydd yr amcan yn cael ei gyflawni.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys y camau gweithredu penodol a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028. Bydd y rhain yn cael eu datblygu yn ystod ac yn dilyn yr ymgynghoriad, gan weithio gydag uwch reolwyr, arweinwyr a staff. Efallai na fydd y cynllun terfynol ychwaith yn cynnwys yr holl gamau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd ond bydd yn canolbwyntio ar gamau allweddol.

## YR HYN A WNAWN AR ÔL YR YMGYNGHORIAD

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ym mis Awst 2023 a bydd yn parhau dros y misoedd nesaf. Bydd canlyniadau'n cael eu dadansoddi i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd. Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ar y wefan gorfforaethol erbyn 31 Mawrth 2024, a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion y cymunedau, ac unrhyw ddatblygiadau newydd mewn deddfwriaeth neu ganllawiau. Bydd grwpiau rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys ac yn rhan o'r broses hon. Bydd y dull hwn yn ein galluogi i ddeall anghenion ein cymunedau yn well ac yn ein galluogi i gael mwy o fewnwelediad i ddarparu gwell gwasanaethau drwy well ddealltwriaeth o brofiadau bywyd.

Byddwn yn ystyried pob barn wrth gwblhau ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.

**SUT FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ymrwymo i gynnal eich hawliau preifatrwydd. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion cyfreithlon yn unig. Os hoffech ddarganfod mwy am sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol. Hysbysiad Preifatrwydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

**ATODIAD 1**

**HOLIADUR**

1. **A ydych yn ymateb fel;**

| | |
|---|---|
| | Fel un o breswylwyr y Fwrdeistref Sirol |
| | Fel aelod o staff |
| | Fel aelod etholedig |
| | Fel unigolyn busnes |
| | Unigolyn sy'n cynrychioli'r trydydd sector |
| | Arall, nodwch. |

2. **Ydych chi'n cytuno â gweledigaeth Cydraddoldeb y Cyngor?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ydw | | Ansicr | | Nac ydw |
| Dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hyn. | | | | | |

3. **A ydych chi'n cytuno â'r amcan: Ymgysylltu â'n dinasyddion i gymryd rhan a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed er mwyn deall ac ymateb i anghenion ein cymunedau?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ydw | | Ansicr | | Nac ydw |
| Dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hyn. | | | | | |

4. **A ydych yn cytuno â'r amcan: Hyrwyddo a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynus?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ydw | | Ansicr | | Nac ydw |
| Dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hyn. | | | | | |

5. **A ydych yn cytuno â'r amcan: Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful?**

| | Ydw | | Ansicr | | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|---|
| Dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hyn. | | | | | |

6. **A ydych yn cytuno â'r amcan: Sicrhau cyflog cyfartal ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?**

| | Ydw | | Ansicr | | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|---|
| Dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hyn. | | | | | |

7. **A ydych yn cytuno â'r amcan: Deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ein gwasanaethau?**

| | Ydw | | Ansicr | | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|---|
| Dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hyn. | | | | | |

8. **A ydych yn meddwl y dylem ystyried a chynnwys unrhyw amcanion eraill yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028?**

| | Ydw | | Ansicr | | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|---|
| Dywedwch wrthym pam eich bod yn meddwl hyn a pha amcanion eraill y gellid eu cynnwys. | | | | | |

9. **A oes unrhyw feysydd o anghydraddoldeb y teimlwch nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Amcanion Cydraddoldeb blaenorol a amlinellwyd?**

| | Oes | | Ansicr | | Ansicr |
|---|---|---|---|---|---|
| Dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hyn. | | | | | |

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**10. A oes unrhyw broblemau yr ydych yn eu hwynebu, neu'n meddwl y gallwch eu hwynebu, wrth geisio cael mynediad at ein gwasanaethau?**

| | Oes | | Ansicr | | Nac ydw |
|---|---|---|---|---|---|
| Dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hyn. | | | | | |

**11. Sut allwn ni wneud yn well/beth sydd angen ei newid/beth allwn ni ei wneud yn wahanol?**

**12. Pa gamau y dylem eu cymryd i sicrhau ein bod yn lleihau anghydraddoldebau yn y gweithlu a chymunedau, i'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau?**

**13. Dywedwch wrthym a ydych yn meddwl bod angen i ni ganolbwyntio ar unrhyw fesurau neu fentrau penodol yn ein cynllun ar gyfer 2024-2028, a beth yw'r meysydd hynny?**

**14. Unrhyw sylwadau eraill.**

## GWYBODAETH AMDANOCH CHI

Er mwyn sicrhau ein bod yn casglu barn a phrofiadau byw pob grŵp nodweddion gwarchodedig, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallwch ateb y cwestiynau canlynol amdanoch chi'ch hun. Mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol.

---

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **RWY'N...** | Fenyw ☐ | Gwryw ☐ | Am hunan ddisgrifio ☐<br>Nodwch yma: | Ddim am ddweud ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **BETH SY'N DISGRIFIO EICH RHYWEDD ORAU** | Dyn ☐ | Menyw ☐ | Anneuaidd ☐ | Am hunan ddisgrifio ☐<br>Nodwch yma: | Ddim am ddweud ☐ |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **OEDRAN** | 16-25 ☐ | 26-39 ☐ | 40-49 ☐ | 50-65 ☐ | 66-75 ☐ | 76-85 ☐ | 86-95 ☐ | 95+ ☐ | Ddim am ddweud ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFEIRIADEDD RHYWIOL** | Anrhywiol ☐ | Deurywiol ☐ | Hoyw neu Lesbiaidd ☐ | Heterorywiol ☐ | Ddim am ddweud ☐ |
| | Arall ☐ | Nodwch yma: | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **STATWS PRIODASOL** | Partneriaeth Sifil neu'n Briod ☐ | Byw gyda Phartner ☐ | Sengl ☐ | Ddim am ddweud ☐ |
| | Wedi Gwahanu ☐ | Wedi Ysgaru ☐ | Gweddw ☐ | Arall ☐ Nodwch yma: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ANABLEDD** | A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddynt bara am 12 mis neu fwy? | | | |
| | Oes ☐ | Nac oes ☐ | Ddim am ddweud ☐ | |
| | A yw eich cyflwr neu salwch / a yw unrhyw rai o'ch cyflyrau neu salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd? | | | |
| | Ydy, llawer ☐ | Ydy, ychydig ☐ | Dim o gwbl ☐ | Ddim am ddweud ☐ |
| | Does gen i ddim anabledd ☐ | Nam clyw ☐ | Anawsterau dysgu ☐ ☐ | |
| | Nam corfforol/symudedd ☐ | Nam lleferydd ☐ | Nam golwg ☐ | |
| | Ddim am ddweud ☐ | Arall ☐ Nodwch yma: | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **SGILIAU IAITH GYMRAEG** | **Darllen** | Ychydig ☐ | Yn weddol ☐ | Yn dda ☐ | Yn rhugl ☐ |
| | **Siarad** | Ychydig ☐ | Yn weddol ☐ | Yn dda ☐ | Yn rhugl ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Deall** | Ychydig ☐ | Yn weddol ☐ | Yn dda ☐ | Yn rhugl ☐ |
| | **Ysgrifennu** | Ychydig ☐ | Yn weddol ☐ | Yn dda ☐ | Yn rhugl ☐ |
| | Dim sgiliau Cymraeg ☐ | | | Ddim am ddweud ☐ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **SGILIAU IAITH ARWYDDO PRYDEINIG** | Dim sgiliau IAP ☐ | Deall IAP ☐ | Defnyddio IAP ☐ | Ddim am ddweud ☐ |

| | |
|---|---|
| **SGILIAU IEITHOEDD ERAILL** | Does dim disgwyl i staff sydd â sgiliau ieithoedd eraill ymgymryd â dyletswyddau gan ddefnyddio'r ieithoedd hynny oni bai eu bod nhw am wneud, ac os ydynt, rhoddir cymorth yn llawn iddyn nhw. Nodwch yr iaith a'r lefel:<br>________________________________________<br>________________________________________ |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BETH YW'CH GRŴP ETHNIGRWYDD?** | Ddim am ddweud ☐ | | | | | | |
| | **GWYN** | | | | | | |
| | Cymreig ☐ | Seisnig ☐ | Albanaidd ☐ | Gwyddelig o Ogledd Iwerddon ☐ | Prydeinig ☐ | Gwyddelig ☐ | Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ☐ |
| | Cefndir Gwyn Arall ☐ | | | Nodwch yma: | | | |
| | **CYMYSG / AML-ETHNIG** | | | | | | |
| | Gwyn a Du Caribïaidd ☐ | | | Gwyn a Du Affricanaidd ☐ | | Gwyn ac Asiaidd ☐ | |
| | Cefndir Cymysg/Aml-Ethnig Arall ☐ | | | Nodwch yma: | | | |
| | **ASIAIDD/ASIAIDD PRYDEINIG** | | | | | | |
| | Indiaidd ☐ | Pacistanaidd ☐ | | Bangladeshaidd ☐ | | Tsieineaidd ☐ | |
| | Cefndir Asiaidd Arall ☐ | | | Nodwch yma: | | | |
| | **DU /AFFRICANAIDD/CARIBÏAIDD/PRYDEINIG DU** | | | | | | |
| | Affricanaidd ☐ | Caribïaidd ☐ | | | | | |
| | Cefndir Du Arall ☐ | | | Nodwch yma: | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **GRŴP ETHNIG ARALL** | |
| | Arabaidd ☐ \| Cefndir Ethnig Arall ☐ | Nodwch yma: |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CREFYDD NEU GRED** | Bwdhaidd ☐ | Cristion ☐ | Dyneiddiwr ☐ | Hindŵaidd ☐ | Ddim am ddweud ☐ |
| | Iddew ☐ | Mwslimaidd ☐ | Sicaidd ☐ | Dim Crefydd ☐ | Arall ☐ |
| | Nodwch yma | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFRIFOLDEBAU GOFALU** | Dim dyletswyddau gofalu ☐ | Gofalu am blentyn/blant (dan 18) ☐ | | Ddim am ddweud ☐ |
| | **Prif Ofalwr** | | **Gofalwr Eilaidd** | |
| | Person/au hŷn (65+) | ☐ | Person/au hŷn (65+) | ☐ |
| | Plentyn Anabl | ☐ | Plentyn Anabl | ☐ |
| | Oedolyn Anabl | ☐ | Oedolyn Anabl | ☐ |
| | Arall | ☐ | Arall | ☐ |
| | Nodwch yma: | | | |

**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol: Hysbysiad Preifatrwydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Diolch i chi am roi o'ch amser i roi eich barn.**

**Byddwn yn defnyddio eich adborth i helpu i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028.**